OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 No. 1339

## Rheoliadau Gwasanaethau Maethu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2018

PROSPECTIVE

## RHAN 3

### Gofynion ar ddarparwyr awdurdodau lleol o ran yr wybodaeth sydd i'w darparu i unigolion wrth gychwyn darparu gofal a chymorth

**Gwybodaeth am y gwasanaeth etc.**

**12.**—(1) Rhaid i'r darparwr awdurdod lleol lunio canllaw ysgrifenedig ar y gwasanaeth.

(2) Rhaid i'r canllaw—

(a) cael ei ddyddio, ei adolygu o leiaf bob blwyddyn a'i ddiweddaru fel y bo angen,

(b) bod mewn iaith, arddull, cyflwyniad a fformat sy'n briodol i blant (o bob oedran a dealltwriaeth) ac oedolion,

(c) cael ei roi i—

(i) unrhyw blentyn sydd wedi ei leoli gan y darparwr,

(ii) unrhyw rieni maeth a darpar rieni maeth,

(iii) yn achos plentyn sydd wedi ei leoli gydag awdurdod ardal, yr awdurdod hwnnw, a

(d) cael ei roi ar gael i eraill ar gais, oni bai nad yw hyn yn briodol neu y byddai'n anghyson â llesiant y plentyn.

(3) Rhaid i'r canllaw gynnwys y canlynol—

(a) crynodeb o'r polisïau a'r gweithdrefnau y mae rhaid i'r darparwr awdurdod lleol eu rhoi yn eu lle o dan reoliad 10(1)(a), (b), (c), (d), (e), (h) a (j),

(b) gwybodaeth am sut i wneud cwyn,

(c) gwybodaeth am argaeledd gwasanaethau eirioli annibynnol i blant sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol,

(d) gwybodaeth am rôl a manylion cyswllt Comisiynydd Plant Cymru(**1**).

(4) Rhaid i'r darparwr awdurdod lleol sicrhau bod plant yn cael unrhyw gymorth sy'n angenrheidiol i'w galluogi i ddeall yr wybodaeth a gynhwysir yn y canllaw.

(**1**) Crëwyd swydd Comisiynydd Plant Cymru gan adran 72 o Ddeddf Safonau Gofal 2000 (p. 14).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Rhl. 12 mewn grym ar 29.4.2019, gweler **rhl. 1(2)**

**Statws**
Mae'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn rhagolygol.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Mae newidiadau yn dal heb eu gwneud i Rheoliadau Gwasanaethau Maethu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2018. Mae unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod gan y tîm yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt gydag anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to :**

– reg. 12 coming into force by S.I. 2018/1339 reg. 1(2)